**ADRODDIAD I'R CABINET**
**16:12: 2014**

**Aelod Cabinet:** **Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams**

**Pwnc:** **Trefniadau Diogelu Plant Cyngor Gwynedd- Canlyniad Archwiliadau**

**Swyddog cyswllt:** **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol**

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Amcan yr adroddiad yma yw :-

- Adrodd ar ganfyddiadau perthnasol, ar lefel gorfforaethol, yn dilyn tri archwiliad i faterion yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.
- Amlygu'r materion hynny sydd angen sylw arbennig a gweithredu ar lefel gorfforaethol.
- Cymeradwyo'r bwriad ar gyfer rhaglen waith.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Yn ystod y deunaw mis diwethaf cyhoeddwyd tri adroddiad yn dilyn archwiliadau oedd yn cynnwys sylw i faterion diogelu plant yng Nghyngor Gwynedd sef

- **"Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc."** *Estyn ( Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ) a Swyddfa Archwilio Cymru* ym Mawrth 2013

- **"Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal ,sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg ."** *AGGCC ( Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru )*yn Awst 2014

- **"Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol ."** *Swyddfa Archwilio Cymru* yn Hydref 2014.

2.2 Mae'r adroddiadau yn eu cyfanrwydd ar gael ar wefan y cyrff archwilio unigol neu drwy gysylltu â'r Gwasanaeth perthnasol.

2.3 Yn ganlyniad i bob adroddiad mae cyfres o gynigion neu argymhellion - rhai yn berthnasol i'r gwasanaethau arbennig ac eraill yn berthnasol ar lefel gorfforaethol.

Byddant oll o ddiddordeb i aelodau'r Cabinet a'r Cygnor ond mae nifer o ddiddordeb, ac angen sylw arbennig ar lefel gorfforaethol gan gynnwys sylw gan aelodau.

2.4 Bwriad yr adroddiad yma yw amlygu'r prif negeseuon o'r tri adroddiad gan nodi pa gamau a gymerwyd hyd yma i ymateb i'r argymhellion. Nid yw'n fwriad trafod argymhellion sy'n faterion Mewnol i wasanaethau unigol ond os dymunir mwy o wybodaeth am y rhain gellir cysylltu gyda'r gwasanaethau'n uniongyrchol.

## 3. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

3.1 Mae argymhellion yn y tri adroddiad sy'n berthnasol i aelodau a staff y Cyngor yn gyffredinol. Mae argymhellion hefyd sy'n berthnasol i aelodau penodol megis cynrychiolwyr ar y Panel Rhiant Corfforaethol a chynrychiolwyr ar Bwyllgorau Craffu . Y bwriad yw pwysleisio'r angen i bawb ddeall a gwerthfawrogi eu cyfrifoldeb o ran diogelu plant a phobl ifanc ac yn arbennig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn gofal. Neges glir o'r archwiliadau yw nad mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Cefnogi Plant a Theuluoedd yn unig yw hyn.

3.2 Gofynnir i aelodau'r Cabinet gymeradwyo'r bwriad ar gyfer rhaglen waith fydd yn cyfarch y cynigion a'r argymhellion.

**4. Ystyriaethau perthnasol-** Argymhellion perthnasol i faes diogelu yn deillio o'r 3 adroddiad ynghyd â'r ymateb.

| **4.1 Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc.** | |
|---|---|
| 1 | Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r Cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd |

4.2 Archwiliad cynhwysfawr ydoedd hwn yn cynnwys sylw i sawl agwedd o addysg yng Ngwynedd ac yn cynnwys 6 argymhelliad. Roedd un ( sef yr uchod), yn canolbwyntio'n benodol ar faes diogelu ac yn deillio o ddarganfyddiad yr archwilwyr nad oedd trefniadau diogelu o fewn yr awdurdod yn bodloni gofynion statudol a bod hyn yn destun pryder. Lluniwyd cynllun gwaith manwl yn ymateb i'r adroddiad.

4.3 Fel cam cyntaf yn ymateb i'r adroddiad sefydlodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol Banel Strategol Diogelu fyddai'n fodd i
*" Sicrhau bod trefniadau corfforaethol mewn lle ar gyfer amddiffyn a diogelu plant ac oedolion bregus a sicrhau bod trefniadau yn gadarn o fewn y Cyngor"*
Cymeradwywyd sefydlu'r Panel gan Gabinet y Cyngor ar yr 20fed o Ragfyr 2012

Aelod Cabinet Gofal sy'n cadeirio'r panel yma sy'n arwain ar osod cyfeiriad strategol, monitro cynnydd mewn perfformiad, adnabod bylchau a gyrru datblygiadau yn y maes . Mae aelodau eraill yn cynnwys aelodau arweiniol Plant a Phobl Ifanc ac Addysg, y Cyfarwyddwr Statudol, ynghyd â Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr perthnasol. Mae'r Panel yn atebol i'r Cabinet. Yn atebol i'r Panel sefydlwyd Panel Gweithredol Diogelu a gadeirir gan Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ac a fynychir gan gynrychiolwyr o bob Adran o fewn y Cyngor.

4.4 Yn sgil yr archwiliad datblygwyd Polisi Corfforaethol ar Ddiogelu Plant ac Oedolion Bregus ( a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor yn Ebrill 2013) a datblygodd pob Adran unigol bolisi diogelu gan nodi'n glir pwy oedd y rheolwyr dynodedig a beth oedd cyfrifoldeb pob aelod o staff mewn perthynas â diogelu. Trefnwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant addas i anghenion pob aelod o staff gan gychwyn gyda hyfforddiant sylfaenol drwy raglen e ddysgu ( Lefel 1 ). Cynhaliwyd Hyfforddiant Lefel 2 ar gyfer staff a ddynodwyd yn rheolwyr dynodedig a Lefel 3 ar gyfer rheolwyr dynodedig gyda chyfrifoldebau penodol ynghyd â staff arbenigol yn y maes. Trefnwyd hyfforddiant bellach i ysgolion. Trefnwyd hyfforddiant hefyd i aelodau ac, hyd yma, mae **39** aelod wedi mynychu. Mae'r rhaglenni hyfforddiant yma bellach yn rhedeg yn gyson gyda'r bwriad o sicrhau fod pawb yn derbyn hyfforddiant cychwynnol addas ac yn mynychu sesiynau dilynol bob tair blynedd.

4.5 Yn ychwanegol cychwynnwyd ar waith sylweddol gan yr Adran Adnoddau Dynol ar y cyd gyda'r Gwasanaethau unigol i wirio statws pob aelod o staff gan sicrhau fod pawb perthnasol wedi'u cymeradwyo drwy broses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS ) a bod ganddynt ddau dystlythyr yn unol â'r gofynion. Lle nad oedd y rhain mewn lle trefnwyd eu bod yn cael eu cwblhau. Ynghlwm yn hyn gwiriwyd a diweddarwyd y Gronfa Ddata Gweithlu gan sicrhau fod yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifanc neu oedolion bregus wedi'u hadnabod fel rhai sydd angen gwiriad DBS.

4.6 Cryfhawyd systemau caffael y Cyngor hefyd yn sgil yr adroddiad gan sefydlu Grŵp Tasg Caffael a Chytundebau yn is grŵp i'r Panel Gweithredol ar Ddiogelu. Rhoddwyd arweiniad ar faterion diogelu o fewn llawlyfr gan bwysleisio'r angen i dystiolaethu bod recriwtio diogel, hyfforddiant diogelu priodol a chydymffurfiaeth a DBS yn digwydd. Nodwyd hefyd fod angen rheolwr dynodedig yn gyfrifol am faterion diogelu ym mhob asiantaeth.

4.7 Adlewyrchwyd y ffaith fod diogelu plant ac oedolion bregus yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd drwy gynnwys y maes yng Nghynllun Strategol y Cyngor gan amlygu'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau corfforaethol a chyfreithiol yn y maes.

4.8 Roedd ymateb yr archwilwyr fu'n monitro cynnydd y cynllun gwaith yn gadarnhaol dros ben ac yn dilyn ymweliad ym Mawrth 2014 adroddwyd
*"Mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu diogelu yn briodol yn ei strategaeth gorfforaethol. Mae hyn wedi gosod seiliau addas i'r broses o wella. …….fe fabwysiadodd yr awdurdod*

*bolisi diogelu corfforaethol priodol. …….Mae gwaith y paneli ( Panel Strategol a Gweithredol Diogelu ) hyn sy'n cyd-lynu gwaith diogelu yn briodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor, yn gryfder…"*

| **4.2 Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal , sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg .** | |
|---|---|
| 1 | Roedd aelodau etholedig wedi cydnabod pwysigrwydd eu rôl mewn perthynas â diogelu a rhianta corfforaethol ond roedd angen iddynt ddarparu mwy o her er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. |
| 2 | Roedd angen i aelodau sicrhau eu hunain y caiff nodau strategol eu perchnogi a'u troi'n gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r awdurdod lleol a chan asiantaethau partner Ar hyn o bryd ymddangosai fod gorddibyniaeth ar wasanaethau plant i gyflawni'r agenda hon . |
| 3 | Nododd staff a defnyddwyr fod argaeledd tai a llety " camu mlaen" priodol i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn fwlch mewn gwasanaethau ….mae hwn yn faes y bydd angen canolbwyntio 'n fwy arno . |
| 4. | Roedd cydberthynas yr awdurdod a gwasanaethau Iechyd yn parhau i ddibynnu'n ormodol ar wasanaethau cymdeithasol plant yn darparu cyllid ac adnoddau i asesu a diwallu anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal . |

4.9 Rhan o adolygiad Gymru gyfan ydoedd yr adolygiad yma o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant yn derbyn gofal neu'n gadael gofal( plant dros 11 oed, oedd hefyd yn ymddwyn mewn ffordd oedd yn peri gofid). Roedd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd cefnogi ac amddiffyn y plant a'r bobl ifanc yma gan roddi sylw arbennig i sut yr oedd y Cyngor yn hyrwyddo ymarfer ar sail hawliau a llais y plentyn, hyrwyddo canlyniadau gwell i blant a hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

4.10 O ystyried y briff dylid nodi fod yr archwiliad wedi canolbwyntio ar ganran fechan iawn o'r boblogaeth plant a phobl ifanc mewn gofal. Dylid nodi hefyd fod yr archwiliad, nid yn unig yn edrych ac adrodd ar brosesau a systemau mewnol yr Adran Cefnogi Plant a Theuluoedd, ond hefyd ar agweddau corfforaethol megis rôl y Panel Rhiantu Corfforaethol, ac agweddau yn ymwneud â phartneriaid y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor. Yn unol ag amcan yr adroddiad yma canolbwyntiwyd ar yr argymhellion corfforaethol a phartneriaethol.

4.11 Y cwestiwn cyntaf ofynnwyd felly oedd .. *"A wnaeth yr awdurdod gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol yn effeithiol gan hyrwyddo sefydlogrwydd, lles, a diogelwch plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal?"*

4.12 Nododd yr archwilwyr fod *" cydnabyddiaeth gynyddol o wasanaethau Plant fel blaenoriaeth gorfforaethol".* Nodwyd fod strategaeth rhianta corfforaethol yn cynnwys addewidion i blant a phobl ifanc gan y Cyngor. Nodwyd enghreifftiau o ymarfer da gan y

panel gan gynnwys ymchwiliadau thematig, sylw i berfformiad, herio asiantaethau partneriaethol mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau a cheisio barn pobl ifanc oedd yn gadael gofal. Soniwyd hefyd am sefydlu'r Panel Strategol ar Ddiogelu a pherthynas y panel gyda'r Cabinet gan nodi fod hyn yn cryfhau llinellau atebolrwydd ar lefel gorfforaethol.

4.13 Nodwyd y strwythurau a'r cyfundrefnau oedd wedi'u sefydlu o fewn y gwasanaeth er mwyn cael darlun cyflawn o'r plant a'r bobl ifanc oedd mewn gofal yng Ngwynedd. Cyfrannwyd at hyn drwy'r broses adolygu "Dechrau i'r Diwedd" gynhaliwyd ar y gwasanaethau plant. Roedd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i fonitro cynnydd pob unigolyn yn erbyn y disgwyliadau a nodwyd hefyd fod uwch reolwyr yn ymwybodol iawn o'r risgiau allai wynebu plant mewn gofal.

4.14 Eto nodwyd fod problemau mewn perthynas â sicrhau gofal Iechyd sylfaenol i'r plant a'r bobl ifanc yma yn parhau a bod anawsterau mewn perthynas â sicrhau llety addas i bobl ifanc yn gadael gofal.

4.15 O ran yr argymhellion ar lefel gorfforaethol gwelir fod negeseuon i gynrychiolwyr aelodau ar y Panel Rhiant Corfforaethol yn ogystal ag aelodau gwleidyddol yn gyffredinol. Mae'r negeseuon yn cynnwys yr angen am graffu miniog a'r angen i herio perfformiad. Maent hefyd yn cynnwys yr angen i aelodau sicrhau fod holl wasanaethau'r Cyngor yn ystyried eu dyletswydd fel pe baent yn rhieni i blant a phobl ifanc mewn gofal. Bydd angen cyfannu'r argymhellion hyn i raglen waith cynhwysfawr fydd yn cynnwys sylw i'r ddau adroddiad arall a gyhoeddwyd.

| **4.3 Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol** | |
|---|---|
| 1. | Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn a'r Ddeddfwriaeth |
| 2 | Sicrhau bod risgiau diogelu , a'r camau i'w lliniaru, wedi'u diweddaru yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol |
| 3 | Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor drwy e.e. adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel : presenoldeb mewn Hyfforddiant diogelu a'i effaith a chanlyniadau rhaglen archwilio ysgolion flynyddol . |
| 4. | Cytuno ar raglen waith archwilio fewnol reolaidd i adolygu trefniadau diogelu'r Cyngor |
| 5. | Darparu Hyfforddiant i'r staff i gyd ar Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor |

4.16 *Noder fod ymateb staff ac aelodau etholedig i'r holiadur wedi'i grynhoi fel atodiad i'r prif adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio*.

4.17 Fel sail i'r archwiliad yma holwyd **" A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn cynnig sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu ?"**

4.18 Nodwyd fod diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb o fewn yr awdurdod ac nid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig ac aethpwyd ati, gan ddefnyddio holiadur ynghyd a chyfweliadau unigol, i ddarganfod lefel gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff ac aelodau'r awdurdod ynghyd â nodi pa weithdrefnau oedd yn eu lle ar lefel gorfforaethol.

4.19 O ran trefniadau llywodraethu nodwyd fod y Cyngor wedi sicrhau fod diogelu'n flaenoriaeth gorfforaethol ac wedi ceisio cryfhau trefniadau rheoli drwy ailstrwythuro a chreu swydd Pennaeth Adran Cefnogi Plant a Theuluoedd ynghyd a gosod rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol. Nodwyd fod swyddogion ac aelodau etholedig ar y cyfan, yn deall y cyfrifoldebau am ddiogelu er y dylid nodi fod llai na 50% o'r rhai a holwyd yn gwybod pwy oedd yr aelod arweiniol ar faterion amddiffyn plant.

4.20 Nodwyd fod polisi a gweithdrefnau diogelu corfforaethol wedi'u llunio a'u hadolygu gan ychwanegu fod *"…Polisi Diogelu priodol a chynhwysfawr wedi bod ar waith ers blwyddyn bellach…".* Yn ychwanegol nodwyd pwysigrwydd y Panel Diogelu Gweithredol fel fforwm ar gyfer y math yma o waith.

4.21 Fel y gwelir uchod, nodwyd fod trefniadau a gweithdrefnau diogelu wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg iau Corfforaethol ond nad oedd cyfrifoldeb am reoli risgiau unigol yn amlwg o fewn y gofrestr ac nid oedd aelodau'n gyfarwydd â'r cysyniad o reoli risg yn y modd yma.

4.22 Mae'r adroddiad yn nodi fod ymwybyddiaeth " dda " o bwysigrwydd dulliau effeithiol o adrodd am berfformiad a'i herio ond mae'n ychwanegu mai prin yw'r dystiolaeth o graffu effeithiol mewn perthynas â diogelu gan naill ai'r pwyllgor Craffu na'r Cabinet. Noda hefyd y dylai'r craffu yma gynnwys sylw i ddiogelu ym mhob adran / gwasanaeth ac nid ei gyfyngu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg .

4.23 Nodir yn yr adroddiad fod gweithdrefnau recriwtio a phenodi staff yn gadarn a nodir hefyd fod hyfforddiant diogelu wedi'i ddarparu i staff ac aelodau etholedig. Er hyn nid oedd gwybodaeth ynglŷn â phresenoldeb aelodau etholedig ar gael i'r archwilwyr.

4.24 Er bod yr Adran Archwilio fewnol eisoes wedi adolygu rhai agweddau ar ddiogelu nodwyd nad oedd cynlluniau i wneud rhagor yn y maes yma. Argymhellwyd y dylid cytuno ar raglen audit o wahanol agweddau o ddiogelu o fewn y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

4.25 Argymhellwyd hefyd y dylid darparu hyfforddiant at Bolisi Chwythu Chwiban i bob aelod staff.

## 5.Camau nesaf ac amserlen – Diweddglo

5.1 Y prif negeseuon ( lefel corfforaethol ) sy'n deillio o'r tri adroddiad yw:-

- Yr angen i ddeall a gwerthfawrogi polisi a gweithdrefnau diogelu plant a phobl ifanc y Cyngor.
- Yr angen am graffu a herio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc mewn gofal neu'n gadael gofal.
- Yr angen i sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol o faterion diogelu a materion yn ymwneud a phlant mewn gofal neu'n gadael gofal.

5.2 Dylid nodi fod rhaglenni gwaith eisoes wedi'u llunio neu ar y gweill gan adrannau neu wasanaethau unigol perthnasol i gyfarch argymhellion mewnol i'r gwasanaethau.

5.3 Ystyriwyd yr adroddiad yma gan aelodau Panel Strategol Diogelu'r Cyngor yn ei gyfarfod ar yr 20 fed o Dachwedd a chytunwyd y dylid cyfannu'r argymhellion uchod i raglen waith y Panel ar gyfer 2014-2015. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r bwriad yma.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

Mae ystyried casgliadau'r archwiliadau hyn o'r pwys mwyaf oherwydd pwysigrwydd sicrhau diogelwch i'r Cyngor. Mae'n dda cael peth cydnabyddiaeth yn yr adroddiadau o'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn y maes ond rhaid bwrw iddi nawr i wella ymhellach. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion.

### Y Swyddog Monitro:

O ystyried y gofynion statudol, disgwyliadau rheoleiddwyr a blaenoriaethau'r Cyngor mae'r argymhellion yn yr adroddiad yma yn amserol a phriodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf fod yr adroddiad yma'n cydgasglu sawl argymhelliad a wnaed gan wahanol arolygwyr i mewn i un rhaglen waith ar gyfer diogelu plant, a deallaf fod adnoddau digonol mewn lle ar draws sawl adran er mwyn gweithredu'r rhain yn briodol.

---

## Atodiadau